

## CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 8fed o Ragfyr 2015

**Yn bresennol / Present:** Cyng Geraint Davies, Cyng Daff Davies, Cyng Mary Thomas, Cyng Bill Green, Cyng Lewis Davies

**Ymddiheiriadau/ Apologise:** Cyng Helen Howells, Cyng Euros Davies, Cyn Gwilym Jenkins

### Materion Personol/Personal Matters

Llongyfarchwyd CFFI Llanwenog ar ennill cystadleuaeth y Siarad Cyhoeddus Saesneg.  
Congratulations were extended to Llanwenog YFC on winning the English Public Speaking competition.

1	<b><u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u></b> Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. Nobody declared a personal interest.
2	<b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd yn gywir gan y Cyng. Bill Green ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Mary Thomas. The November minutes were proposed as a true record by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Mary Thomas.
3.	<b><u>Materion yn Codi – Matters Arising</u></b>
a.	Cofgolofn Drefach War Memorial – Mae'r gofgolofn a'i chynnwys wedi eu tynnu lawr a'u storio'n ddiogel dan glo ac mae copi o'r allwedd gan y Clerc. Mae'r cyfreithwyr wedi cadarnhau bod teitl y ddaear wedi newid i enw Cyngor Cymuned Llanwenog gan y 'Land Registry'. The war memorial and it's contents have been removed and stored away securely under lock, the Clerk has a copy of the key. The solicitors have confirmed that the title of the land has now been transferred over to Llanwenog Community Council.
b.	Diwrnod ailgylchu eitemau trydanol bychain - Recycling small electrical items. Bydd hwn yn cael ei gynnal ar yr 16eg o Ionawr yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. Bydd y Clerc yn ei hysbysebu. The day will be held on the 16 <sup>th</sup> of January at Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. The Clerk will advertise it.
c.	Bocsys Halen – Salt Bins – Ni fydd bin halen yn cael ei osod gan y Cyngor Sir ar waelod rhiw Ysgol Llanwenog gan nad yw'n cwrdd a gofynion y criteria sydd ganddynt. Mi roedd pawb yn cytuno y byddai symud y bocs halen sydd ar dop y rhiw i lawr at Little Acre, fel sydd wedi ei awgrymu gan perchenog y tŷ yn syniad da – mi fyddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn a fyddai hyn yn bosib. Dywedwyd bod bocs halen Rhuddlan wedi ei falu a bod angen un newydd yno. A new salt bin will not be placed on the bottom of Llanwenog School hill as the location does not meet the requirements of the criteria that the County Council follow. Everyone agreed that moving the salt bin which is located on top of the hill down to Little Acre, as suggested by the owner the property is a good idea,

d.	<p>the Clerk will contact the County Council to see if this is possible. The salt bin at Rhuddlan has broken and a new one is required.</p> <p>Cae Chwarae Caesarn Playing Field – Derbywniwyd atebion i’r cwestiynnau a ofynwyd i’r Cyngor Sir ynglyn a’r contract, penderfynwyd gofyn i bwyllgor y Cae Chwarae ddod i cyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Ionawr i drafod y mater. Answers were received from the County Council to the questions raised from the contract presented, it was decided to ask the Committee to come to the Community Council’s meeting in January to discuss the matter.</p>
<p><b>4. <u>Gohebiaeth</u></b></p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p>	<p>Ymgynghoriad Trawsnewid Busnes – Business Transformation Consultation. Ymatebwyd i’r ymgynghoriad. A response was given to the consultation.</p> <p>Diweddariad Rhaglen Moderneiddio Gofal Preswyl Ceredigion – Residential Care Modernisation Programme. Nodwyd y newidiadau arfaethedig i gartrefi Awel Deg, Bodlondeb a Cylch Caron. The proposed changes were noted to the Awel Deg and Bodlondeb homes and the Cylch Caron Model.</p> <p>Ceidwad Hawliau Tramwy a Mynediad i Gefn Gwlad – Public Rights of Way and Access Ranger. Nodwyd mae Mr Haydn Lewis fydd yng nghofal y Gymuned hon. It was noted that Mr Haydn Lewis will be in charge of this Community.</p> <p>Trefniadau Casgliadau y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd – Waste Collection arrangements for the Christmas and New Year Period. Nodwyd – Noted.</p>
<p><b>5. <u>Taliadau a Ceisiadau am Arian / Payments and Requests for Money</u></b></p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p>	<p>Torch Pabi - Poppy Wreath - £15.00</p> <p>Gwefan - Website - £120.00</p> <p>Arnold Davies Vincent Evans - £600.00</p> <p>Ambiwlans Awyr Cymru – Wales Air Ambulance - £50.00 Cynigwyd gan Cyng Lewis Davies eiliwyd gan Cyng Daff Davies.</p>
<p><b>6. <u>Cyfrifon</u></b></p> <p>a.</p>	<p>2016/2016 – Precept – Cytunwyd ar brecept o £8000.00 am y flwyddyn nesaf gan fod cynilion y Cyngor Cymuned yn isel ar hyn o bryd. It was agreed that a precept of £8000.00 would be raised for the next financial year as the money in the account is low at present.</p>
<p><b>7. <u>Cynllunio / Planning</u></b></p> <p>a.</p>	<p>A150848 – Maeshedydd, Blaencwrt - Change of use from agricultural barn to rural enterprise dwelling – Dim Gwrthwynebiad – No Objection.</p>
<p><b>8. <u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></b></p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><b>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</b></p> <p>Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 5ed o Ionawr am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 5<sup>th</sup> of January at 7.30pm at Drefach Village Hall.</p> <p>Mae layby ar yr hewl rhwng Ty Newydd a Rhiwsion ddim yn cael ei lanhau gan y Cyngor Sir, gofynwyd i’r Clerc godi hyn gyda’r Cyngor Sir. The layby between Ty Newydd and Rhiwsion is not being cleaned by the County Council, the Clerk was asked to raise this with them.</p>

c.	Derbyniwyd llythyr pellach wrth Mr Griffiths ynglyn a'r cyfyngder cyflymder yn Nrefach, roedd wedi derbyn llythyr gan y Cyngor Sir yn esbonio beth yw'r criteria o ostwng cyflymder mewn pentref. Mi fydd y sefyllfa'n cael ei fonitro tra bod y gwaith yn mynd yn ei flaen ar yr ysgol newydd. Penderfynwyd aros i weld beth fydd yn digwydd. A further letter was received from Mr Griffiths regarding the speed limit at Drefach, he had received a letter from the County Council which outlined the criteria and process in decreasing the speed limit. The situation will be monitored as the new school is being built. It was decided to wait to see what will happen.
----	--

Arwyddwyd:.....

Dyddiad:.....